Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Gweithgareddau Ymgysylltu

## Manyleb y Rhaglen

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diben y Rhaglen ..... 3
3. Trosolwg o Ddarparu ..... 3
4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr ..... 3
5. Cynnwys y Rhaglen ..... 3
6. Gofynion Cyflwyno Data ..... 4
   Cod y Rhaglen ..... 4
7. Monitro ac Archwilio ..... 4
   Dull Monitro ..... 4
   Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen ..... 4
   Deilliannau Dysgu ..... 4
   Profion Archwilio ..... 5
8. Manylion Cyswllt ..... 5
9. Atodiadau ..... 6
   A. Datganiad o Wariant – Cyllid Ymgysylltu ..... 6

## 1. Cyflwyniad

Mae'r holl Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cael dyraniad o hyd at 5% o'u cyllid rhan-amser ar y cyfan i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu.

Bydd cyllid ymgysylltu'n ategu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau addysgol ledled Cymru. Mae'r cyllid hwn yn ceisio galluogi'r Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gynorthwyo dinasyddion Cymru i gyrraedd eu llawn botensial.

## 2. Diben y Rhaglen

Prif ddiben y cyllid yw galluogi colegau i estyn allan at yr unigolion hynny nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd a chreu cyfleoedd i bobl ledled Cymru gyfranogi mewn cyrsiau a fydd yn codi dyheadau ac yn rhoi anogaeth i fyfyrio ynghylch manteision llwybrau gyrfa, ochr yn ochr â chymell y rhai sy'n cyfranogi i barhau â'u taith addysgol.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Wrth ddarparu'r rhaglen, dylai'r SABau a'r darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned roi'r dulliau canlynol ar waith yn systematig, i sicrhau bod y dysgu trwy weithgareddau ymgysylltu a ddarperir yn diwallu anghenion pob ardal ac yn gwella ansawdd yr addysg a gynigir yn barhaus.

## 4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr

I fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, rhaid i unigolion:

- fod yn byw yn gyfreithlon yng Nghymru; a
- bod yn 16 oed neu drosodd ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd benodol honno.

Ystyrir bod unigolion yn anghymwys os ydynt, ar yr adeg y mae'r cwrs yn dechrau:

- yn mynychu unrhyw ddarpariaeth addysg bellach neu uwch; neu
- mewn prentisiaethau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; neu
- yn wladolyn tramor anghymwys.

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Dylid defnyddio cyllid ymgysylltu i:

- ennyn ymgysylltiad darpar ddysgwyr â chyrsiau byrion, gan gynnwys elfennau o lythrennedd, rhifedd a/neu sgiliau digidol
- hybu cyfleoedd i ddysgu'n barhaus
- annog y dysgwyr hynny sy'n cyfranogi mewn cyrsiau i gyfranogi a gwella'n barhaus, gyda thystiolaeth eglur o gamu ymlaen
- creu cyfle i symud unigolion tuag at gymhwyster lefel 2 neu yn ôl i mewn i addysg

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer y Rhaglen Gweithgareddau Ymgysylltu.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[1] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Cod y Rhaglen*

Dylid defnyddio'r cod rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr sy'n cyfranogi mewn cyrsiau Ymgysylltu:

9500AXXP Gweithgareddau Ymgysylltu

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

### *Dull Monitro*

Rhaid i'r sefydliad gadw ffurflen gofrestru a lofnodwyd ar ran y sefydliad a chan y dysgwr fel tystiolaeth o gydymffurfio i ategu ei hawliad am gyllid.

Mae llofnodion electronig neu ddigidol yn dderbyniol cyn belled â bod y ddogfen wedi cael ei llofnodi'n briodol gan aelod o staff y sefydliad hefyd.

### *Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen*

Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynwyd trwy LLWR i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro hyd y ddarpariaeth yn rheolaidd gan ddefnyddio'r meysydd *LP73, LP77* ac *LP55*; a
- monitro data o setiau data'r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod y gofynion darparu'n cael eu hateb.

### *Deilliannau Dysgu*

Mae'r modd y mae dysgwyr yn camu ymlaen yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

---

[1] Gellir cael mynediad at hwn yma: Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR).

Y disgwyliad yw y bydd y mwyafrif o'r dysgwyr sy'n cwblhau cwrs Ymgysylltu'n symud ymlaen i gam nesaf addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

***Profion Archwilio***

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan y sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[2]. O fewn hyn, bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau Ymgysylltu yn briodol.

Dylid darparu adroddiad terfynol a Datganiad o Wariant diwedd blwyddyn ar gyfer Medr hefyd a hynny fan bellaf o fewn mis ar ôl dyddiad cau perthnasol LLWR ym mis Medi, a'r rheiny'n amlinellu sut y mae'r cyllid wedi cael ei wario.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch negeseuon e-bost canlynol: Buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[2] Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Atodiadau

### *A. Datganiad o Wariant – Cyllid Ymgysylltu*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

| | |
|---|---|
| **Dychweler i:** | Buddsoddiadamonitro@medr.cymru |
| **Dychweler erbyn:** | 31 Hydref 202X[3] |

**Enw'r Sefydliad:**

Blwyddyn Academaidd:

Gwariant Gwirioneddol ar gyfer Gweithgareddau Ymgysylltu[4]: £

**Tystysgrif y Pennaeth / Cyfarwyddwr Addysg**

Rwy'n ardystio trwy hyn, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth a roddir uchod yn gywir a bod yr holl wariant wedi cael ei gyflawni yn erbyn y nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt yn unol â'r Llythyr Dyfarnu Grant a'r Telerau ac Amodau Cyllid cysylltiedig.

Rwyf hefyd yn ardystio bod cofnodion cyfrifyddu eglur wedi cael eu cadw ar lefel y Sefydliad i adnabod bod y cyllid wedi cael ei dderbyn a'r modd y'i dosbarthwyd wedyn i'r maes gwasanaeth perthnasol; a bod rheolaethau ariannol arferol yr awdurdod wedi cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â'r cyllid, gan gynnwys adolygiad cyfnodol gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

**Enw:**

**Swydd:**

**Llofnod**:

**Dyddiad:**

[3] Y dyddiad hwn yw'r diwrnod olaf ym mis Hydref sy'n dilyn yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r Datganiad yn cyfeirio ati.
[4] Yr holl wariant cymeradwy a ysgwyddwyd erbyn diwedd mis Gorffennaf yn y flwyddyn academaidd benodol honno.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**